

Cenn@d

IONAWR 18 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU

RHIF 99

Yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol, 18–25 Ionawr 2023

Thema'r wythnos eleni yw 'Byd-berthyn, gweddio am undod ynghanol anghyfiawnder'

Cyflwyniad i'r thema

Dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn (Eseia 1:17)

Ar 22 Ebrill 1993 llofruddiwyd llanc ar stryd yn Llundain wrth iddo aros am fws. Roedd Stephen Lawrence yn ddyn ifanc addawol a oedd yn edrych ymlaen at wireddu ei freuddwyd o ddod yn bensaer. Cafodd ei lofruddio ond am ei fod yn ddu. Byddai ei lofruddio'n cael effaith ddwys ar gymdeithas a theimlwyd hynny ledled pedair cenedl Prydain ac Iwerddon. Amlygodd y digwyddiad hagrach hiliaeth, a chafodd hynny ei ddwysáu gan fethiannau systemig yr heddlu i ddod â'r rhai a laddodd Stephen gerbron llys. Yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, daeth Adroddiad MacPherson yn 1998 â'r cysyniad o 'Hiliaeth Sefydliadol' i sylw ehangach, yr hiliaeth sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn cymdeithas neu mewn sefydliadau.

Eleni rydym yn nodi 30 mlynedd ers llofruddio Stephen Lawrence a bydd hyn yn ffocws arbennig i lawer sy'n gweithio i sicrhau cymdeithas sydd heb hiliaeth. Tra bo hiliaeth yn bodoli, rydym yn byw mewn cymdeithas ranedig a byd rhanedig, felly yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni rydym yn myfyrio ynghylch y modd mae'r rhaniadau hyn yn effeithio ar ein bywyd cyffredin wrth i ni weddio gyda'n gilydd am yr undod y gweddiodd Crist amdano. Ond rydym hefyd yn cydnabod cymaint mae eglwysi wedi cyfrannu at raniadau a rhagfarn o fewn ein sefydliadau ac o fewn cymdeithas. Tra bo hiliaeth, ni fydd undod Cristnogol!

Daw'r deunydd canlynol o'r astudiaethau dyddiol yn y llawlyfr i gyd-fynd â'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol. Dilynwch y ddolen hon ar gyfer yr adnoddau yn Gymraeg a Saesneg: [Adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol 2023](#) (ctbi.org.uk)

Diwrnod 1: Wedi'n gwneud ar ddelw Duw

Darlleniadau

Genesis 1:26–28

Datguddiad 7:9–12

Sylwadau

Yn llyfr cyntaf y Beibl, dywedir wrthym ein bod wedi ein creu ar lun a delw Duw, nid dim ond fel unigolion ond fel cyfangorff. Mae'r ddynoliaeth gyfan, pobl o bob hil,

diwylliant, iaith a chrefydd, ynghyd yn adlewyrchu delw'r Creawdwr. Golyga hynny fod gwadu'r ddelw honno mewn unrhyw un hil, yn wir mewn unrhyw unigolyn, yn golygu gwadu presenoldeb Duw yn y ddynoliaeth drwyddi draw.

Mae bod yn Gristion yn golygu bod yn ddisgybl. Fe'n gelwir i ddysgu gyda'n gilydd yr hyn mae gwneud daioni yn ei olygu, a phwy a beth yng nghreadigaeth Duw sy'n gofyn ein cydsafiad. Wrth i gymdeithas ddod yn fwyfwy di-hidio am anghenion eraill, mae'n rhaid i ni, fel plant Duw, ddysgu sut i sefyll dros ein brodyr a'n chwariydd sydd dan ormes drwy lefaru'r gwirionedd wrth y grymus. Ac, os bydd angen, mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddaclau achos y rhai sy'n dioddef fel y gallant fyw mewn heddwch a chyfiawnder. Wrth wneud hynny byddwn bob tro'n gwneud yr hyn sy'n iawn, gan gydnabod bob adeg ddelw Duw ym mhawb ohonom.

Mae ein hymrwymiad i ddileu pechod hiliaeth a chael ein hiacháu o'i effeithiau'n gofyn ein bod yn barod ac yn fodlon bod mewn perthynas â'n cyd-Gristnogion. Bydd hynny'n arwydd o undod ar gyfer yr holl fyd.

Myfyrdod

Dyma sut y byddwn yn eu henwi:

ffoaduriaid,
ceiswyr lloches,

ymfudwyr,

ymfudwyr economaidd,

a mwy o groeso i rai nag i eraill.

Ond gwyddost tithau eu henwau dynol

oherwydd dy deulu ydynt,

yn dwyn dy ddelw di,

yn ddwyfol ddynol.

Gweddio

Fe'n gwnaethost, Dduw,

ar dy ddelw dy hun,

ac yna dod yn un ohonon ni,

yn falch o'r rhai a greaist.

Gwna ninnau'n falch o fod yn rhan o'r teulu byd-eang hwnnw,


ac yn eiddgar am ddarganfod a dathlu dy ddelw dithau

ym mhob unigolyn, pob diwylliant, pob cenedl

y cawn y fraint o ddod i gyswllt â nhw.

Byd-berthyn:

Gweddio am Undod Ynghanol Anghyfiawnder



Yr Wythnos Weddi

am

Undeb Cristnogol

Be-Longing: Praying for Unity amidst Injustice

Week of Prayer for Christian Unity

18-25 Ionawr 2023

www.ctbi.org.uk/weekofprayer

Cwestiynau

Ydy hi'n hawdd i chi adnabod delw Duw ym mhobol eraill? Ynteu a yw hynny weithiau'n heriol?

Sut mae eich eglwys neu grŵp o eglwysi'n croesawu rhai sy'n newydd i'ch cymuned?

Sut allwn ni weld delw Duw mewn pobl rydym yn ei chael yn anodd eu caru?

Ewch a Gwnewch (gweler: www.ctbi.org.uk/goanddo)

Neilltuwch amser i ddysgu am ddiwylliant, iaith neu genedl na wyddoch ddim, neu fawr ddim, amdano neu amdani. Dysgwch gymaint ag y gallwch am y bobl hynny ac, os yw'n bosibl o gwbl, dysgwch yn fwy uniongyrchol oddi wrth unigolyn neu unigolion o'r grŵp hwnnw.

Cynhwyswch iaith wahanol yn yr addoliad yn eich eglwys yn eich gwasanaeth nesaf – efallai y bydd yn arbrawf mwy effeithiol fyth os nad yw neb yn eich cynulleidfya yn ei deall!

Edrychwch yn ôl i'r newyddion ddeng mlynedd yn ôl i ddod o hyd i grŵp o bobl a oedd mewn perygl bryd hynny. Darganfyddwch beth yw eu sefyllfa nawr a'r modd y gallech chi neu eich eglwys neu grŵp o eglwysi eu cefnogi a/neu ddysgu oddi wrthynt.

Cyfle am Flwyddyn Gap yng Ngholeg y Bala 2023–24

Buom yn rhoi sylw yn gyson yn *Cenn@d* i'r cyfle i fod ar flwyddyn gap yng Ngholeg y Bala ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala. Beth am dynnu sylw ieuencid yn eich eglwys at y cyfle hwn?

Wyt ti eisiau rhoi cyfnod i wasanaethu Duw yng Nghymru? Dyma gyfle cyffrous i ti weithio fel rhan o dîm ar benwythnosau plant, ieuencid ac ieuencid hŷn Coleg y Bala. Fe fyddi hefyd yn cael gwasanaethu mewn clybiau plant ac ieuencid wythnosol!

Trwy wasanaethu fe fydd cyfleoedd i ti brofi dy ddoniau ac i ddatblygu'n bersonol, yn ogystal â sesiynau mentora rheolaidd.

Am fwy o wybodaeth, pwysa ar y ddolen isod ac anfon y ffurflen gofrestru atom mor fuan â phosibl neu erbyn 27 Chwefror fan bellaf. Am sgwrs anffurfiol, croeso i ti ffonio'r Coleg ar 01678520565 i drefnu i siarad â Siân neu Owain: <http://www.colegybala.org/Cymraeg/blwyddyn-gap>



Cyrsiau Chwefror yng Ngholeg y Bala

Beth am hyrwyddo'r cyrsiau hyn ymhlith eich plant a'ch pobl ifanc? Dilynwch y dolenni am ffurflen archebu am le ar y cwrs neu cysylltwch â Choleg y Bala ar y rhif uchod.

ADUNIAD: 10–12/02

I bobl ifanc 15+ a myfyrwyr: <https://forms.gle/z5nfctSzT5qqXxH7>

CHWALFA CHWEFROR: 20–21/02 (LLun–Mawrth hanner tymor)

I blant 8–11 oed: <https://forms.gle/8dW8L7pwh9YeWrCJA>

CWRS IEUENCTID: 24–26/02 (Penwythnos olaf hanner tymor)

I ieuencid blynyddoedd uwchradd 7–10: <https://forms.gle/>



CYFLEOEDD CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUEDD



Swyddog Plant a Theuluoedd Caersalem, Caernarfon
(2 ddiwrnod yr wythnos)



Swyddog Plant, Ieuencid a Theuluoedd Cynllun Efe,
Bro Eco'r Wyddfa
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill? Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuencid a theuluoedd?

Ymgeiswch am y swyddi hyn am gyfle i ddatblygu eich doniau mewn lleoliadau cefnogol.

Bydd y ddwy swydd hon yn ffurfio tîm a fydd yn cydweithio ar ran Capel Caersalem a Chynllun Efe.

Am fanylion llawnach am y swyddi a ffurflen gais, cysylltwch ag Arwel E. Jones: eithinoguchaf@btinternet.com.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3 Chwefror 2023



O Gefn Gwlad



Gwres y tân

'Dwn i ddim ydi o'n iawn i mi roi'r pennawd yna i sylwadau ar ddechrau blwyddyn, a ninnau yng nghanol y broblem o newid hinsawdd, ac yn gwybod cymaint o niwed y mae llosgi deunydd ffosil yn ei wneud i'r amgylchedd? Hynny'n un peth i'w ystyried; a pheth arall, mae tân agored wedi diflannu o brofiad llawer iawn o bobl erbyn hyn. Rhywbeth yn perthyn i'r gorffennol ydi o i nifer fawr, os nad i'r mwyafrif. Ond pam lai chwaith? Imi ateb fy nghwestiwn fy hun: fe soniwn am fod yn geffyl blaen a mynd dros y tresi, er bod oes y ceffyl ar fferm wedi diflannu ers blynyddoedd lawer. A tharo'r haearn tra mae'n boeth, er gwaetha diflaniad efallai y gof o'r rhan fwy a' o bentrefi. Iawn sôn am dân mewn grât, felly.

Dod ar draws disgrifiad un frawddeg Kate Roberts o ddechrau blwyddyn yn ei chyfrol *Tegwch y Bore* wnes i, a dyma fo: 'Y mae dechrau blwyddyn yr un fath yn union â chegin heb dân ynddi.'

Sut gegin yw honno? Gallwch ddychmygu os na chofiwch: stafell hollol ddigysur, ddigroeso, yn oeraidd ac annifyr. Mor wahanol i stafell y mae tân yn ei grât, yn gynnes, yn groesawgar ac, yn fwy na hynny, yn stafell sy rywsut yn fyw ac yn cynnig cysur a diogelwch oherwydd bywiogrwydd y fflamau sy nid yn unig yn wres ond yn gwmmi hefyd.

Mae'n ddisgrifiad da, gan fod rhywbeth yn wag ac yn oeraidd mewn blwyddyn newydd. Does dim wedi digwydd ynddi, does ganddi ddim hanes, dim atgofion, dim byd ar ei dechrau y gallwn ddweud amdani - mi ddigwyddodd eleni. Na, cyn y peidia â bod yn gegin wag, ddigroeso, rhaid i ni lanw'r flwyddyn newydd â rhywbeth.



Llun: Janice Gill ar Unsplash <https://unsplash.com/photos/qzxbuCrEEEv>

A beth, tybed? A ninnau ymhlith y lleiafrif sy'n proffesu Cristnogaeth, dylai'r ateb fod yn syml hyd yn oed os nad nad ydi'r gweithredu felly bob amser.

Ei llanw â gwres ein gofal a'n cosnsyrn i'n gilydd a'n cysur i eraill - onid dyna'r ateb? Sut? Drwy garu pawb, a chofiwch nad yw hynny'n golygu hoffi pawb. Does neb yn disgwyl hynny. Y mae yna wahaniaeth rhwng hoffi a charu, ac af i ddim i ymhelaethu gan imi wneud hynny rywdro o'r blaen. Ond doedd Crist ei hun, er yn caru pawb, ddim yn hoffi pawb. Sut y gwn i? Am fod yr adnod yn dweud: 'A hoff oedd gan yr Iesu Mair, a Martha a Lasarus.' Pa angen dweud hynny amdano os oedd o'n hoffi pawb, sy'n awgrymu i mi fod ei berthynas gyda nhw yn wahanol i'w berthynas gyda rhai teuluoedd eraill.

Yr hyn y mae caru ein gilydd yn ei olygu yw ufuddhau i orchymyn Crist i bob disgybl trwy ofalu am ein gilydd, efallai trwy fod yn gymdeithasol a thrwy fynychu cymdeithasau o bob math hyd y gallwn, gan gynnwys y capel wrth gwrs. Ac oni allwn yn bersonol ofalu am y bregus yn ein cymdeithas, ac y mae llawer yn gwneud

hynny, diolch byth, gallwn gyfrannu i elusennau a chyfundrefnau gofal ac unigolion sy'n cyflawni'r gwaith dros y mwyafrif ohonom, gydag ymroddiad anhygoel ac adnoddau prin yn aml.

Nid caru'r rhai a adwaenwn yn unig. Ni allwn hoffi ond y rhai yr ydym yn eu hadnabod, ond mae caru a chariad yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau adnabyddiaeth. Ac na ddywedwn na wyddom sut. Mae lle i nwyddau ar gyfer banciau bwyd bron ym mhob archfarchnad erbyn hyn, ar gyfer bwydo'r rhai nas gwelsom erioed, mae'n debyg. Gallwn hefyd anfon arian i'r rhai sy'n eu trefnu a'u cynnal, ac mae ei angen. Oherwydd bod yna gyfyngu ar beth allwn ei adael yn y siopau, mae llawer o'r rhai sydd mewn angen mewn perygl o gael eu hamddifadu o fwyd maethlon, ac o fitaminau angenrheidiol. Diolch felly fod y rhai sy'n gyfrifol am fanciau bwyd, os cân' nhw arian, yn medru sicrhau bod yna'r cydbwysedd priodol yn y bwyd a roir allan. Mae elusennau eraill rif y gwllith sy'n gweithio ledled y byd hefyd yn crefu am arian yn dilyn yr argyfyngau diweddar. Cofiwch mai crefydd gwagu ein pocedi yw'r grefydd Gristnogol.

Ond i ni wneud y pethau hyn yn ôl ein gallu, gall y Flwyddyn Newydd fod yn un amgenach na'r un yn nisgrifiad Kate Roberts o'i dechrau. Ein dymuniad a'n gweddi felly, a hithau'n Ionawr, yn oer a thywyll yma yn hemisffer y gogledd, a llaweroedd yn ddiartref, yw i fwy a mwy o drigolion daear fedru profi 2023 yn flwyddyn y gegin gynnes.

Elfyn Pritchard

Nadolig yn Llundain

Rhwng bwrlwm siopau Oxford Circus a hwyl y sglefrio a'r marchnadoedd Nadolig, roedd capel Seion, Ealing Green, yn brysur yn dathlu hefyd.

Mae clwb plant a chlwb ieuencid wedi cychwyn yn y capel ers mis Tachwedd ac fe gafwyd digonedd o hwyl yn dathlu'r wyl wrth fynd i wyl *Matilda* yn y sinema a chael parti yn y capel! Roedd digon o bopcorn i greu tŵr uchel gyda ni!


Roedd gwasanaeth Nadolig eleni yn arbennig tu hwnt a'r plant i gyd yn adrodd, canu ac actio rhannau o Stori'r Geni yn hyfryd. Cafwyd deuwad odidog gan Daniel (Thomas Wright) a Sara Manon (Hughes Amad) o 'Haleliwia', a geiriau'r gân a'u lleisiau swynol yn ddigon i g'nesu unrhyw galon.

'Dyn ni'n diolch i'r Arglwydd am ein plant a'n hieuenctid, ac roedd digwyddiadau'r Nadolig yn gyfle gwyb i ddathlu hynny.

Miriam Watling



Jack Hayford (25 Mehefin 1934– 8 Ionawr 2023) a dau weinidog o sir Fôn



Ddydd Sul, 8 Ionawr, bu farw Jack Hayford. I lawer, dyma awdur yr emyn 'Majesty', ond dim ond un ymhlith cannoedd o'i emynau ydy 'Majesty'. Mae cyfieithiad Catrin Alun o'r emyn hwnnw wedi'i gynnwys yn *Caneuon Ffydd*, rhif 277: 'Frenin nef, addolwn Frenin nef'.

Ddechrau mis Tachwedd 1987 cafodd Dei (Dafydd R. Roberts) a minnau wahoddiad i fynychu cynhadledd gweinidogion yng nghapel Jack Hayford, 'The Church on the Way', yn Van Nuys, California. Profiad anhygoel oedd bod yng nghwmni tair mil o weinidogion o bedwar ban y byd a chael llety croesawus gan deulu yn y capel. Roedd Jack Hayford yn host arbennig, yn fugail gofalus ohonom ac yn crynhoi gyda dirnadaeth rhwng pob siaradwr.

Bu'r wythnos yn ei gwmi ac yng nghwmni'r teulu yn brofiad sydd wedi aros hefo ni a hynny am dri rheswm: y siaradwyr heriol ac eneiniedig; gallu Jack Hayford i lywio'r cyfan; ond, yn fwy na dim, fod y teulu y

cawsom dreulio wythnos yn eu cwmni wedi anfon copi yr un atom, yn 1991, o'r *New King James Study Bible*. Adnodd ydy hwn, dan olygyddiaeth ragorol gynhwysfawr Jack Hayford a hynny'n arbennig mewn perthynas â'r ieithoedd Beiblaidd ynghyd ag awduriaeth a chyd-destun y Beibl. Dyma arf mae Dei a minnau wedi manteisio cymaint arno yn ein gweinidogaeth am dros 30 mlynedd bellach.

Jack Hayford, y gweinidog a fugeiliodd gynulleidfa o ddeunaw yn 1969 i fod yn eglwys o ddwy fil o aelodau erbyn dechrau'r 1980au. Dyma oedd gweledigaeth Dei a minnau ar gyfer sir Fôn, wrth i ni ddod adref o Los Angeles ganol Tachwedd 1987. Ddigwyddodd hynny ddim – ddim eto, yn'dê.

"A oes dim yn rhy anodd i'r Arglwydd?" (Genesis 18: 14). Diolch i Dduw am Jack Hayford.

W. Bryn Williams
Pwllheli

DYDD GWEDDI'R BYD 2023 – TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: "Clywais am eich ffydd"

Cyflwyniad Pwynt Pŵer ar gael yn Gymraeg drwy ebostio Mary Thomas ar rema.thomas@btinternet.com


Cyflwyniad Pwynt Pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Gymraeg [Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script]

ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy ebostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2, ond medrwcw sicrhau'r lawrlwythiad Cymraeg ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol

Deunydd ar gyfer plant i'w gael yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

Beti-Wyn James
Carys Ann
Swyddogion Cyhoeddusrwydd



Ymunwch â ni

WYNEB YN WYNEB

Cristnogion yn dod ynghyd i addoli Duw a gweddio dros Gogledd Cymru

1-4yp,
Dydd Sadwrn Ionawr 28^{ain} 2023
Ysgol Aberconwy
Morfa Drive, Conwy LL32 8ED

Os bydd fy mhobl, ie fy mhobl i, yn cyfadddef eu bai, gweddio arna i a'm ceisio i a stopio gwneud pethau drwg, yna bydda i'n gwrandao o'r nefoedd, bydda i'n maddina eu pechod ac yn iachau eu gwlad.
2 Cronid 7:14

Bydd lluniaeth ar gael

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Alan Lorrimer-Riley 07765 607319
Janet Ryder 07747 845342
Andy Hughes 07968 826401

Uwch Jackson David am Unplugh



Gwasanaeth Nadolig Teuluol Pandy Tudur

Y Beibl mewn blwyddyn i deuluoedd

Beth am fynd ar daith drwy'r Beibl eleni fel teulu?

Mewn cyfnod lle mae llai o ddsygu ar y Beibl mewn ysgolion dyddiol, a nifer y plant sydd bellach yn mynd i ysgol Sul neu glwb plant yn rheolaidd wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor Ysgolion Sul newydd ryddhau adnodd syml a hwylus i helpu teuluoedd i ddarllen y Beibl gyda'i gilydd yn y cartref.

Yn ystod 2020 cyhoeddwyd *Beibl Newydd y Teulu* – Beibl lliwgar, wedi ei greu'n benodol fel adnodd ar gyfer y cartref, sy'n cynnwys pwyntiau trafod a gweddi, a chyfle i feithrin trafodaeth. Mae'r Beibl lliwgar hwn yn dal ar gael am £13.99, un ai o'ch siop Gymraeg leol neu o gwales.com.

Yn ychwanegol at hyn, ar gyfer 2023 rhyddhawyd adnodd newydd lle nad oes angen prynu yr un llyfr, gan fod modd lawrlwytho poster a defnyddio gwefan beibl.net i gael y storïau i gyd. Mae'r Cyngor

Ysgolion Sul yn annog teuluoedd i ddarllen 52 o hanesion o'r Beibl mewn cyfnod o flwyddyn – gan ddechrau ar unrhyw adeg gyfleus. Trwy wneud hynny ceir taith synhwyrol drwy brif lyfrau a themâu'r Beibl.

Cynllun syml a hwylus

Y cyfan sydd angen ei wneud yw lawrlwytho poster sy'n cynnwys y rhaglen am y flwyddyn. Dros 52 wythnos mae cyfle i gael trawsolwg ar brif storïau a themâu'r Beibl. Mae modd defnyddio unrhyw Feibl, ond awgrymir testun beibl.net, gan ddefnyddio'r fersiwn lliw *365 o storïau o'r Beibl*, os yw'n bosibl. Neu, gellir mynd i wefan beibl.net a darllen yr hanes yno, neu lawrlwytho'r Ap Beibl i ddyfais ffôn neu lechen.

Mae anogaeth i neilltuo amser yn ystod yr wythnos i ddarllen yr hanes fel unigolion, gan ganiatáu digon o amser i bawb wneud hynny mewn da bryd, ac yna trefnu amser rheolaidd bob wythnos i ymgynnull o gwmpas y bwrdd i gyd-ddarllen, gan roi cyfle

i drafod a holi. Dylid caniatáu tua 20 munud yr wythnos ar gyfer gwneud hyn. Awgrymir cytuno ar amser penodol i wneud hyn bob wythnos – bore neu nos Sul, er enghraifft – er mwyn hwyluso'r drefn.

Ar ôl darllen yr hanes, awgrymir cyd-drafod y pwyntiau canlynol yn wythnosol:

1. Pa agwedd o'r stori wnaeth eich cyffroi, ac sy'n fwyaf rhyfeddol?
2. Beth gredwch chi mae'r darn yma'n ei ddweud wrthym am natur Duw?
3. Beth ddysgoch chi am y bobl oedd yn rhan o'r hanes arbennig yma?
4. Beth gredwch chi mae'r hanes yma'n ei ddweud wrthym ni heddiw?
5. Beth fedrwn ni ei wneud mewn ymateb i ddarllen y stori yma?

Yna anogir pawb i dreulio amser byr mewn gweddi cyn dod â'r cyfnod o gwmpas y bwrdd i ben.

Mae'r poster ar gael i'w argraffu yma:

[Ffydd yn y Cartref - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru \(ysgolsul.com\)](http://Ffydd yn y Cartref - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (ysgolsul.com))



Y Beibl mewn blwyddyn Adnodd beibl.net newydd i deuluoedd



Beth am fynd ar daith drwy'r Beibl eleni fel teulu?

Dros 52 wythnos cewch gyfle i gael trosolwg ar brif storïau a themâu'r Beibl. Gellir defnyddio unrhyw Feibl, ond awgrymwn destun beibl.net, gan ddefnyddio'r fersiwn lliw '365 o storïau o'r Beibl' os yn bosibl.

Hen Destament

□ **Wythnos 1**
Duw yn creu'r byd
Adda ac Efa
Genesis 1-2:24
Beibl 365: tudalen 7-9

□ **Wythnos 2**
Y Neidr
Allan o Eden
Genesis 3
Beibl 365: tudalen 10

□ **Wythnos 3**
Hanes Noa
Adeiladu cwch
Genesis 6:9-9:17
Beibl 365: tudalen 14-17

□ **Wythnos 4**
Hanes Abraham
Addewid Duw
Genesis 15
Beibl 365: tudalen 21

□ **Wythnos 5**
Hanes Sara
Geni mab
Genesis 18: 1-15, 21: 1-6
Beibl 365: tudalen 22 a 27

□ **Wythnos 6**
Hanes Jacob
Derbyn bendith
Genesis 27: 32-33
Beibl 365: tudalen 34-35

□ **Wythnos 7**
Hanes Joseff
Yn yr Aifft
Genesis 37: 39-42; 44-45
Beibl 365: tudalen 48-50

□ **Wythnos 8**
Hanes Miriam
Geni Moses
Exodus 2: 1-10
Beibl 365: tudalen 76-77

□ **Wythnos 9**
Hanes Moses
Duw yn achub ei bobl
Exodus 12: 1-41; 14: 5-31
Beibl 365: tudalen 89-92

□ **Wythnos 10**
Moses ar Sinai
Derbyn y Deg Gorchymyn
Exodus 20: 1-21
Beibl 365: tudalen 96-97

□ **Wythnos 11**
Hanes Aaron
Tarw aur
Exodus 32: 1-29
Beibl 365: tudalen 100-101

□ **Wythnos 12**
Hanes Caleb
Ysbiwyr
Numeri 13
Beibl 365: tudalen 108-109

□ **Wythnos 13**
Hanes Moses
Gwlad yr addewid
Deuteronomium 8: 1-18
Beibl 365: tudalen 110

□ **Wythnos 14**
Hanes Rahab
Helpu ysbiwyr
Josua 2
Beibl 365: tudalen 114

□ **Wythnos 15**
Hanes Josua
Walïau yn syrthio
Josua 6
Beibl 365: tudalen 122-123

□ **Wythnos 16**
Hanes Debora
Barac yn arwain
Barnwyr 4
Beibl 365: tudalen 137-138

□ **Wythnos 17**
Hanes Gideon
Dewis byddin
Barnwyr 6-7
Beibl 365: tudalen 139-147

□ **Wythnos 18**
Hanes Ruth a Naomi
Ffyddlondeb ffrind
Ruth 1-2
Beibl 365: tudalen 164-167

□ **Wythnos 19**
Hanes Hanna
Gofyn am blentyn
1 Samuel 1: 9-28
Beibl 365: tudalen 170-172

□ **Wythnos 20**
Hanes Samuel
Galw Dafydd
1 Samuel 16: 1-13
Beibl 365: tudalen 186-187

□ **Wythnos 21**
Hanes Dafydd
Ymladd gyda chwyr
1 Samuel 17
Beibl 365: tudalen 189-191

□ **Wythnos 22**
Hanes Abigail
Ffrae Dafydd a Nabal
1 Samuel 25: 2-38
Beibl 365: tudalen 202-203

□ **Wythnos 23**
Hanes Solomon
Doethineb mawr
1 Brenhinoedd 3
Beibl 365: tudalen 211-212

□ **Wythnos 24**
Hanes Elias
Brwydr gyda Baal
1 Brenhinoedd 18: 1-40
Beibl 365: tudalen 218-219

□ **Wythnos 25**
Hanes Eliseus
Y jar olew
2 Brenhinoedd 4: 1-7
Beibl 365: tudalen 223

□ **Wythnos 26**
Hanes Jona
Y pysgodyn mawr
Jona 1-2
Beibl 365: tudalen 224-226

□ **Wythnos 27**
Hanes Sedeceia
Dinistr mawr
2 Cronid 36: 11-21
Beibl 365: tudalen 231

□ **Wythnos 28**
Tri dyn dewr
Y ffwrnais dân
Daniel 3
Beibl 365: tudalen 236-237

□ **Wythnos 29**
Hanes Daniel
Yn ffau'r llewod
Daniel 6
Beibl 365: tudalen 240-242

Testament Newydd

□ **Wythnos 30**
Hanes Mair
Ymweliad gan angel
Luc 1: 26-38
Beibl 365: tudalen 255

□ **Wythnos 31**
Hanes Joseff
Ymweliad gan angel
Mathew 1: 18-24
Beibl 365: tudalen 256

□ **Wythnos 32**
Geni Iesu
Ymweliad gan fugeiliaid
Luc 2
Beibl 365: tudalen 258

□ **Wythnos 33**
Geni Iesu
Ymweliad gan seryddion
Mathew 2
Beibl 365: tudalen 260-261

□ **Wythnos 34**
Hanes Ioan Fedyddiwr
Paratoi'r ffordd
Ioan 1: 19-34
Beibl 365: tudalen 264-265

□ **Wythnos 35**
Bedyddio Iesu
Ioan yn bedyddio
Mathew 3: 1-17
Beibl 365: tudalen 266

□ **Wythnos 36**
Dewis disgyblion
Galw 12 i ddilyn
Ioan 1: 35-45; Luc 5: 1-11
Beibl 365: tudalen 268-269

□ **Wythnos 37**
Troï dŵr yn win
Y wyrth gyntaf
Ioan 2: 1-11
Beibl 365: tudalen 271

□ **Wythnos 38**
Iesu a Nicodemus
Yr angen i greu
Ioan 3: 1-21
Beibl 365: tudalen 272

□ **Wythnos 39**
Mair a Martha
Un peth sy'n bwysig
Luc 10: 38-42
Beibl 365: tudalen 284

□ **Wythnos 40**
Iesu'n dysgu
Ar lan y llyn
Marc 4; Mathew 13
Beibl 365: tudalen 286-287

□ **Wythnos 41**
Y bugail da
Y ddafael goll
Luc 15: 1-10; Ioan 10: 11-18
Beibl 365: tudalen 291-292

□ **Wythnos 42**
Dau fab
Y tad cariadus
Luc 15: 11-32
Beibl 365: tudalen 293-295

□ **Wythnos 43**
Pobl angen bwyd
Porthi'r Pum Mil
Marc 6: 34-44
Beibl 365: tudalen 341-342

□ **Wythnos 44**
Yr orymdaith fawr
Cychwyn am Jerwsalem
Luc 19: 28-38
Beibl 365: tudalen 358-359

□ **Wythnos 45**
Iesu'n marw
Croeshoelio Iesu
Luc 23
Beibl 365: tudalen 387-393

□ **Wythnos 46**
Mae Iesu'n fyw
Y bedd gwag
Mathew 28
Beibl 365: tudalen 396-398

□ **Wythnos 47**
Atgyfodiad Iesu
Dychwelyd at ei dad
Actau 1: 3-11
Beibl 365: tudalen 406-407

□ **Wythnos 48**
Y Pentecost
Hanes yr Ysbryd Glân
Actau 2: 1-13
Beibl 365: tudalen 408-409

□ **Wythnos 49**
Hanes Saul
Golau Iachar
Actau 8
Beibl 365: tudalen 418

□ **Wythnos 50**
Hanes Paul
Pregethu ac iachau
Actau 9
Beibl 365: tudalen 419-421

□ **Wythnos 51**
Hanes Pedr
Annerch y bobl
Actau 10
Beibl 365: tudalen 422-423

□ **Wythnos 52**
Paul a Silas yn y carchar
Adda ac Efa
Actau 16
Beibl 365: tudalen 431-432

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

14 Y rhyfel cyntaf a gwared Lot

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 8)

Darllen: Genesis 14:1-16

Rydym yn troi yn awr at hanes sydd ychydig yn fwy anghyfarwydd, efallai, hanes sy'n cynnwys llawer o enwau lleoedd a phobl, a hanes ag un pwrpas yn unig – yn benodol, dangos sut yr ymatebodd Abraham i angen Lot. Mewn ffordd, mae'r hanes yn cadarnhau ffolineb Lot fel un oedd yn cerdded wrth olwg ac nid â golwg ffydd, ac yn brin o'r ffydd hael oedd wedi nodweddu ei ewythr ym mhennod 13. Ymhellach, mae pennod 14 yn nodedig gan mai dyma'r cyfeiriad cyntaf at ryfel rhwng pobl yn y Beibl. Roedd Duw yn gweithio drwy Abraham i fendithio'r holl genhedloedd, ond er hynny mae cynnen yn codi wrth i bobl barhau yn eu pechod. Rydym yn gweld hynny o'r cyfeiriad cryno at gymhellid Cedorlaomer, yn benodol, y ffaith fod brenhinoedd Sodom, Gomorra, Adma, Seboim a Soar wedi peidio â thalu trethi mewn arian ac eiddo, ac yn hynny, mae'n debyg, yn gwrthod y gwasanaeth y cyfeirir ato yn adnod 4.

Peth diflas iawn i ni yw fod rhywrai'n gwrthod rhoi'r hyn yr ydym yn credu rydym yn ei haeddu ganddynt, ac mae gwrthryfel yn siŵr o esgor ar ganlyniadau. Yn hanes y Brenin Ahasferus yn llyfr Esther, fe gofiwch i hwnnw, yn wyneb anufudd-dod ei wraig, ofidio am yr effaith y byddai clywed am hyn yn ei chael drwy'r holl deyrnas (Esther 1:10-18). Felly, Cedorlaomer – nid yn unig yr oedd gwrthod gwasanaethu yn ergyd i'w falchder, yr oedd hefyd yn gosod cynsail perygl. Mae'r adnodau'n rhoi cip pellach inni ar falchder a llid y brenin gan iddo daro'r Reffaimiaid, y Susiaid, yr Emaid, yr Horiaid, yr Amaleciaid a'r Amoriaid ar ei ffordd i'r frwydr! Yn sgil y buddugoliaethau hyn, mae ei fyddin yn nesáu'n hyderus at y pum brenin oedd wedi cynghreirio yn ei erbyn, a'r rheiny'n gwasgaru'n rhwydd iawn o'i flaen. Cymaint mwy ein syndod felly fod Abraham, gyda byddin o ddim ond 318, wedi llwyddo i ymlid y gynghrair

yma oedd wedi bod mor llwyddiannus yn eu cyrchoedd milwrol. Nid yn unig yr oedd wedi gorchfygu a gwared Lot, ond hefyd wedi llwyddo i feddiannu eu holl eiddo i'w roi yn ôl yn ddiweddarach i'w berchnogion (adn. 22-4).

Wrth ddod at yr adran hon, fel at adrannau eraill yn y Beibl sydd yn anodd eu deall, rydym yn gwneud hynny gyda golwg ar yr hyn a ddywed Pedr am yr awduron: 'pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân' (2 Pedr 1:21), a'r hyn ddywed Paul am bwrpas yr ysgrifur: 'Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrifurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafaél yn ein gobaith' (Rhufeiniaid 15:4). Yn hynny, y cwestiwn bob amser yw: beth y mae'r hanes yma'n ei dysgu inni am Dduw, am ei bobl ac am y byd, sy'n ein hannog i ddyfalbarhad a dal gafaél yn ein gobaith?

Yr wyf eisoes wedi nodi dau beth: penderfyniad Lot a'i ganlyniadau, a chymhellion Cedorlaomer. O ran y cyntaf, digon yw dweud bod dewis mynd i fyw yng nghanol pobl annuwiol (Genesis 13:13) yn siŵr o gael effaith a chanlyniadau yn ein bywyd ni. O ran yr ail, mae'r Cristion yn mynd i le peryglus iawn pan mae'n haeru rhyw haeddiant neu'i gilydd, a rhwydd iawn yw darganfod rhesymau naturiol dros fynnu ein hawliau, hyd yn oed pan mae hyn yn golygu tarfu ar heddwch a rhoi lle i gasineb.

Mae'r hanes am barodrwydd Abraham i ddod i gynorthwyo Lot hefyd yn rhywbeth yr wyf am ei nodi, a gwneud hynny drwy ddyfynnu un o sylwadau Mathew Henry ar y digwyddiad: 'Er efallai fod eraill wedi bod yn esgeulus yn eu dyletswyddau tuag atom ni, eto, ni ddylem ni, oherwydd hyn, wadu ein dyletswydd tuag atynt hwy.'

Rwyf hefyd am gyfeirio at y ffaith fod awdur yr adnodau hyn yn cyfeirio at Abraham yma am y tro cyntaf fel Hebreid (14:13). Ystyr y gair yn llythrennol yw 'y rhai sydd wedi croesi'r afon', a dyna oedd ei ystyr yn achos enw hen hen hendaidd Abraham – Heber (10:21, 24; 11:15). Mae'n rhyw fath o enw

teuluol felly, enw sy'n gosod Abraham fel un oedd wedi croesi afon Ewffrates o Babel i ddod i Ganaan, mewn gwrthgyferbyniad â'r bobl yma oedd yn ymosod arno. Yn y gair bach yma felly cawn ein hatgoffa o'r rhai y mae'r Beibl am ffocysu arnynt. Mae'n ddi-ddorol, yn hanes yr Exodus, fod Moses yn cyfeirio at Dduw fel 'yr Arglwydd, Duw'r Hebreaid' yn gyson (Exodus 3:18; 5:3; 7:16; 9:1; 10:3), term y mae Paul am ei ddefnyddio amdano'i hun (2 Corinthiaid 11:22), teulu daearol y Meseia ei hun. Tebyg nad oes cywilydd gennym ni chwaith fel Cristnogion i gael ein galw'n deulu Iesu, gan inni gael ein mabwysiadu i'r teulu drwy ei ras.

I gloi, rwy'n sicr fod yr hanes yma i fod yn rhagflas i deulu Abraham, i genedl Israel ac i ninnau fel Cristnogion o'r realiti hwnnw, 'canys nid arfau gwan y cnawd yw arfau ein milwriaeth ni, ond rhai nerthol Duw sy'n dymchwel cestyll' (2 Corinthiaid 10:4). Er nad oes cyfeiriad penodol yn yr adnodau hyn at ffydd Abraham yn mynd i'r frwydr, bydd yr adnodau nesaf (14:17-20) yn rhagflas o'r fendith a'r amddiffynfa sydd yn Nuw i'w bobl. Er bod lluoedd yn eu herbyn, mae yna addewid i'w bobl: "Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyf. Pan fyddi'n mynd trwy'r dyfroedd, byddaf gyda thi; a thrwy'r afonydd, ni rutherant drosot" (Eseia 43:1-2) ac i'w Eglwys: 'ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni' (Mathew 16:18).

1. Sut fyddwch chi'n gweithio'n briodol i sicrhau hawliau eraill a'r un pryd yn gwneud yn siŵr nad ydych yn mynnu eich hawliau eich hun mewn ffordd amhriodol?
2. Meddylwch am enghreifftiau lle y gall arddel enw ein teulu Cristnogol fod yn heriol.
3. 'Yn sicr mae yna elynion yn y bywyd Cristnogol, a'r rhan fwyaf ohonynt ynom.' Pa elynion fyddwch chi'n eu hystyried fel y rhai mwyaf heriol, a pha elyn yn y dyfodol sydd yn eich arswydo? Beth am ateb William Williams: 'Ond mi rois fy holl ryfeloedd / i'r Un godidoca'i rym?'

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 22 Ionawr, am 7.30yh

Yr wythnos hon byddwn yn dathlu 'Cariad'. Cawn hanes Santes Dwynwen a'r lleoliad rhamantus Ynys Llanddwyn, a chydganu rhai o'n hoff emynau, yn ogystal â mwynhau datganiad hyfryd gan Ceri Haf Roberts o'r emyn-dôn 'Cariad'.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 22 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r bumed raglen mewn cyfres sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, clod a mawl yw'r thema

Sul, 22 Ionawr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan

Cenhadaeth awyr agored

Cofiaf yn dda am dair cenhadaeth y bŵm yn rhan ohonynt pan oeddwn yn fyfyrwr – ym Mlaenau Ffestiniog, Cross Hands a Rhydaman. Daeth yr eglwys ynghyd i weddio a chenhadu o fewn eu cymunedau lleol. Cafwyd cymdeithas hyfryd a thystiolaeth fendithiol oedd yn ymestyn y tu hwnt i waliau'r gwahanol gapeli.

Ceir nifer o enghreifftiau heddiw o ymgyrchoedd cenhadol lleol a chenedlaethol sy'n cyhoeddi'r Efengyl mewn cenedloedd amrywiol, i genedlaethau gwahanol a thrwy ddulliau arbrolfol. Er enghraifft, ystyriwn y defnydd a wnaed gan eglwys i dechnoleg i ymestyn eu tystiolaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig mewn ymateb i Covid. Yn yr un modd, pan nad oedd Billy Graham yn gallu trafaelu o gwmpas y byd, oherwydd henaint, i bregethu'r Efengyl, daeth y byd ato ef trwy gyfrwng y rhyngwrwyd i glywed yr un neges Gristnogol.

Pregethu awyr agored

Dull arall o ymestyn y tu hwnt i bregethu arferol capeli yw'r arfer o bregethu yn yr awyr agored. Wrth feddwl am bregethu yn yr awyr agored, dychmygwn ddynion fel Daniel Rowland, Howell Harris, George Whitefield a John Wesley yn cyhoeddi'r Efengyl i'r tyrfaoedd a heidiai i'w clywed. Daw Billy Graham yn pregethu'r Efengyl i filoedd o bobl o gwmpas y byd hefyd i'r meddwl.

Ceir sawl enghraifft yn y Beibl o bregethu yn yr awyr agored. Gallwn feddwl am y proffwydi'n galw ar bobl Israel i ddychwelyd at Dduw. Ac, wrth gwrs, fe bregethodd Iesu Grist ei bregeth enwocaf ar y mynydd! Yn yr awyr agored y pregethodd Pedr ar fore'r Pentecost a phregethodd Paul hefyd yn yr awyr agored i Genedl-ddynion o gwmpas Môr y Canoldir.

Gwrthwynebiad


Yn gywilyddus, mae'r eglwys sefydledig wedi gwrthwynebu pregethu yn yr awyr agored ar hyd y canrifoedd. Gellir meddwl yma am y gwrthwynebiad a brofodd yr Apostolion, y Diwygwyr Protestannaidd a'r Tadau Methodistaidd. Rhyfedd – o gofio am Gomisiwn Mawr yr Iesu i bregethu'r Efengyl i'r holl fyd (Mathew 28:18–20)!

Manteision a heriau

Mae cynnal oedfa awyr agored yn gyfle gwych i Gristnogion uno i addoli Duw ac i rannu'r Efengyl â phobl drwy sgwrsio â nhw,



John Paul a Fiona Earnest



dosbarthu taflenni Cristnogol, cynnal cyfweiliadau a defnyddio pypedau. Mae'n magu hyder mewn Cristnogion i dystiolaethu am Iesu Grist, a cheir ymatebion amrywiol gan gynnwys chwilfrydedd, gwawd, beirniadaeth a chymeradwyaeth.

Cenhadaeth yr awyr agored

Asiantaeth draws-enwadol sy'n cyhoeddi'r Efengyl i bobl Ynysoedd Prydain er 1853 yw'r Open Air Mission. Seilir ei harwyddair ar ddwy anogaeth yn y Testament Newydd: i 'afael yn dynn yn y gair sydd i'w gredu' (Titus 1:9) ac i 'gyflwyno gair y bywyd' (Philippiaid 2:16). Yng Nghymru mae'r genhadaeth yn gweithredu ar strydoedd ein trefi i bregethu'r Efengyl i bobl y tu fas i'r eglwys. Mae'n cyhoeddi adnoddau Cristnogol, a hefyd drwy fisoedd yr haf poblogaidd yn gweithredu ar draethau (fel yr United Beach Mission a ddechreuodd yn y Rhyl yn 1950).

Rheolwr maes presennol yr Open Air Mission yw John Paul Earnest o sir Fôn. Ef hefyd sy'n cydlynu'r gwaith yng ngogledd Cymru. David Harding sy'n cydlynu'r gwaith yn ne Cymru. Mae'r pregethwyr di-Gymraeg dwi wedi bod ynghlwm wrthynt yn gefnogol i bregethu Cymraeg cyhoeddus.

Dywedodd un o arweinwyr y gwaith yn ne Cymru wrthyf, ac yntau'n gyn-genhadwr profiadol a dreuliodd flynyddoedd mawr ym Mhacistan, fod Cymru'n faes caletach na'r wlad honno! Dengys hyn fod ein gwlad heddiw'n faes cenhadol sydd angen clywed a chredu'r Efengyl.

Symbyliad

Gallwch gael fwy o wybodaeth am yr Open Air Mission ar wefan y gymdeithas: (<https://www.oamission.com>). Gofynnwn yn garedig i chi weddio dros y gwaith hollbwysig hwn. Wedi'r cyfan, yr Ysbryd Glân sy'n agor calonnau pobl i dderbyn Iesu Grist fel eu Hachubwr a'u Harglwydd personol.

Mae'n debyg i rywun gwyno wrth D. L. Moody unwaith na hoffai'r ffordd roedd yn efengylu. Atebodd Moody fod yn well ganddo ei ffordd ef o efengylu na ffordd y rhai a gwynai yn ei erbyn o beidio ag efengylu!

Beth am gynnal oedfa awyr agored amser y Pasg neu'r Nadolig? Gallwch gynnal stondin mewn marchnad neu ffair. Ac fe allwch ddisbarthu llenyddiaeth Gristnogol o ddrws i ddrws: 'Codwch eich llygaid ac edrychwch ar y meysydd, oherwydd y maent yn wyn ac yn barod i'w cynaeafu' (Ioan 4:35).

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Goleuni ac iachawdwriaeth

Darllen Salm 27:1, 4–8

Gwedd

Arglwydd, canmolwn di. Yn nyfodiad Iesu Grist fe welodd y rhai oedd yn 'rhodio mewn tywyllwch oleuni mawr'. Arglwydd, bydd i ninnau heddiw yn 'oleuni' ac yn 'waredigaeth'. Bydded i ninnau geisio dy bresenoldeb, ac edrych ar hyfrydwch dy wedd, yn Iesu Grist. Caniatâ i ninnau drwy'r Ysbryd Glân fedru edifarhau am bob 'tywyllwch' sydd ynom. Ac o fod yn dy bresenoldeb trawsffurfia ni fel y medrwn ninnau hefyd fod yn oleuni yn y byd sydd o'n hamgylch. Amen.

Emyn 222 'Tyrd atom ni'

Darllen 1 Corinthiaid 1:10–17 Ymraniadau yn yr Eglwys

Tafoli

Tra pery'r haul i wawrio yn y Dwyrain bydd pobl yn anghydweled â'i gilydd am bob math o bethau dibwys! Bydd llwythau'r ddaear yn canfod rhesymau dros anghytuno a chweryla am dir, neu adnoddau neu hawliau i'w pobl.

Mae'r union reddfau hyn, yn ddarwybod i ni, yn effeithio ar ein meddwl ninnau am eglwys lleol, ein profiad o gapeli gwahanol, o arweinwyr Cristnogol a'u dylanwad. Byddwn yn cofio gyda diolchgarwch am rai a gyfrannodd i'n twf ysbrydol ac efallai y byddwn yn ddibris o eraill na chawsom 'flas' arnynt. A dyna ddechreuadau carfanu ac ymbleidio ar sail personoliaeth a chwaeth bersonol.

Mae'n amlwg bod chwerwedd 'ymraniadau' wedi arwain at begynnu ac at 'gynhennau' diflas yng Nghorinth.

Yn ein darlleniad heddiw mynegodd yr Apostol Paul ei ddyhead ar ran yr eglwys. Plediodd 'yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, ar i chwi oll fod yn gytûn' (Gweler hefyd Philipiaid 2:1–5; 4:1–2).

Aruchel neu naif?

Wrth eu galw i safon uwch o ymddygiad ac i gerddediad oedd yn deilwng o'u proffes yn Iesu Grist, nid yw Paul mor naif â thybio bod cytundeb yr eglwys yn dibynnu ar 'undod' ar unrhyw gyfrif. Yn wir, yn ddiweddarach yn ei lythyr, mae'n derbyn bod 'pleidiau yn eich plith yn anghenraid'.

Wedi'r cyfan, nid yw pob proffes o ffydd yn ddilys ac nid yw ymarweddiad pob un bob amser yn gydnaws â'u proffes. Weithiau, meddai'r Apostol, bydd yr anghytuno'n

'anghenraid er mwyn i'r rhai dilys yn eich mysg ddod i'r golwg' (1 Corinthiaid 11:19). Er hyn, y ddelfryd aruchel yw bod ysbryd sy'n gytûn ac yn unfryd yn nodweddu cynulleidfa oedd yr eglwys bob amser.

Ffydd a diwylliant

Ni allai'r Cristnogion ifanc yng Nghorinth, yn fwy na ninnau, ddianc yn llwyr nac ymddihatu oddi wrth afael rhagdybiaethau diwylliannol yr oes, na chan ffasiynau'r byd o'u hamgylch. Roedd gan Gorinth fel dinas le i ymffrostio. Mwynhâi freintiau 'trefedigaeth' Rufeinig yn ogystal ag arferion a disgwyliadau'r diwylliant Groegaidd. Roedd yn ddinas ffyniannus. Llwyddai yn fasnachol ac yn ddiwylliannol ac roedd dewis eang o grefyddau yn cynnig profiadau amrywiol i'w deiliaid.

Soffistiaid

Fel dinas o bwys, byddai Corinth yn denu ei 'soffistiaid' teithiol – dadleuwyr cyhoeddus oedd yn pedlora'u 'doethineb' ac a geisiai ennill disgyblion iddynt eu hunain yn eu dadleuon cyhoeddus. Dibynnai eu bywoliaeth ar eu rhethreg ac ar gefnogaeth eu disgyblion. Byddai'r disgyblion hynny yn eu tro yn cael eu hadnabod gan yr athro a ddewisid ganddynt. Dyma'r athro y byddent yn ei ganmol am ei ddoethineb oni chaent eu perswadio gan athro mwy dawnus fod dealltwriaeth 'well' ar gael iddynt.

Pleidiau yn yr eglwys

Mae'n amlwg felly fod Cristnogion ifanc Corinth wedi syrthio i'r demtasiwn o drin arweinwyr yr eglwys fel soffistiaid teithiol i dafoli eu harweinwyr ar sail eu doniau, ac i garfanu ac ymbleidio ar sail hynny. Yn hynny o beth, roedd yr agweddau diwylliannol a berthynai iddynt cyn iddynt ddod yn Gristnogion wedi parhau i ddylanwadu arnynt wedi iddynt ddod i broffesu ffydd yn Iesu.

Dewisodd rhai gael eu hadnabod fel plaid Paul. Wedi'r cyfan, oni ddaeth nifer ohonynt i ffydd yng Nghrist yn ystod ei arhosiad yng Nghorinth ac onid oeddynt yn gwerthfawrogi cymaint fu ei ymdrech ar eu rhan a'i ofal drostynt?

Gwerthfawrogodd eraill allu Apolos, a ymwelodd â Chorinth. Brodor o Aleksandria yn yr Aiff oedd Apolos, pregethwr huawdl, gŵr oedd yn 'gadarn yn yr Ysgrhythurau' ac a oedd wedi ei feithrin yn y ffydd yn

Effesus gan Priscila ac Acwila. Ymffrostiai eraill eto yn eu perthynas uniongyrchol â Phedr. Ef oedd yr Apostol a fu gydag Iesu drwy gydol ei weinidogaeth gyhoeddus. Siawns nad oedd y cymhwyster hwn yn ei ddrychafu uwchlaw Apolos, neu Paul ei hun! Ond yng ngolwg rhai o'r gynulleidfa onid oedd perthyn i 'blaid Crist' yn dangos teyrngarwch rhagorach na phawb arall?

Ateb

Mae ateb Paul i'r carfanu yn ddadlennol. Yn y lle cyntaf dywed ei fod ef ei hun am ymwadu 'â doethineb geiriau'. Nid pregethwr tebyg i'r athrawon teithiol 'soffistiaid' mo Paul. Pregethwr ydoedd a fyddai osod croes Crist yn ei gogoniant tramgwyddus a'i doethineb ffôl gerbron y byd.

Yn ail, mae'n atgoffa'r Cristnogion ifanc o ddrws eu mynediad i gorff Crist, yr Eglwys. Cawsent eu bedyddio nid i Paul, na chan Paul (heblaw am lond dwrn o bobl). Cawsent eu bedyddio i Grist, ac yng Nghrist y derbyniasant ras a thangnefedd. Crist yw'r un a'u galwodd ato. Crist oedd, ac yw, conglfaen ac achos pob cymdeithas (gweler 1 Corinthiaid 1:1–9).

Yn drydydd, mae'n eu hatgoffa nad ar sail doethineb dynol y daethant i berthynas â Duw drwy Iesu Grist. Crist, nid Paul, Apolos na Phedr, a groeshoeliwyd drostynt. O Grist, drwy'r efengyl, y daw eu cymod, eu cysur, a'r sicrwydd y caent eu 'cadw'n gadarn hyd y diwedd fel na fydd cyhuddiad yn eich erbyn yn Nydd ein Harglwydd Iesu Grist' (1 Corinthiaid 1:8).

Y groes a'i grym

Yn ganolog i bob cymdeithas leol ac i dystiolaeth pob eglwys ar draws y byd, bydd yr argyhoeddiad hwn: 'Nid i fedyddio yr anfonodd Crist fi, ond i bregethu'r efengyl ... rhag i groes Crist golli ei grym'.

Ugain canrif yn ddiweddarach mae geiriau Paul a'i neges i'r eglwys yng Nghorinth yn her i gulni ein meddyliau, i gaethiwed cyfyngder ein dealltwriaeth o hanfod a natur Eglwys Iesu Grist, ac i'n parodrwydd i droi oddi wrth groes Iesu Grist fel canolbwynt diffiniadol pob pregethu Cristnogol.

Gwedd

Arglwydd, caniatâ i ninnau heddiw gael ein hadnabod nid gan labeli allanol o gread dynol ond gan ein hymlyniad diwyro wrth groes ein Harglwydd Iesu, i'w goncwest a'i fuddugoliaeth dros bechod y byd, dros angau a'r bedd. Amen.

Emyn 612 'Un sylfaen fawr yr eglwys'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)